OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2002 Rhif 1729 (Cy.163)

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Nwyddau a Gwasanaethau) (Cyrff Cyhoeddus) (Cymru) 2002

Wedi'i wneud	- -	*4 Gorffennaf 2002*
Yn dod i rym	- -	*19 Gorffennaf 2002*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 1(5) o Ddeddf Awdurdodau Lleol (Nwyddau a Gwasanaethau) 1970(**1**) ac sydd wedi'u breinio bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy yng Nghymru(**2**).

Enw, cychwyn, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Nwyddau a Gwasanaethau) (Cyrff Cyhoeddus) (Cymru) 2002 a daw i rym ar 19 Gorffennaf 2002.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru yn unig.

(3) Yn y Gorchymyn hwn ystyr "Deddf 1970" yw Deddf Awdurdodau Lleol (Nwyddau a Gwasanaethau) 1970.

Dynodi cyrff cyhoeddus

2. Bydd y personau a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn, gan eu bod yn bersonau y mae'n ymddangos i Gynulliad Cenedlaethol Cymru eu bod yn arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus, yn gyrff cyhoeddus at ddibenion Deddf 1970.

(**1**) 1970 p.39.
(**2**) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).